**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 21 Gorffennaf 2020**

**Presennol:** Cyng. Dyfed Williams (Cadeirydd)
Cyng. Celfyn Furlong
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Siân Enfys Jones
Cyng. Sharon Parry
Cyng. Einir Thomas

.

**1. Ymddiheuriadau:** Cyng. Gordon Owen, William Victor Owen a Beryl Salisbury.

**2. Datganiad o ddiddordeb: - dim**

**Cofnodion cyfarfod 16 Mehefin 2020**
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Siân Enfys Jones.)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion:**

1. Llwybrau: Byddai'r clerc yn holi os oedd GMS Garden Services wedi dechrau'r gwaith ar y llwybrau troed. Roedd y gwaith atgyweirio ar lwybr troed 15 heb ei ddechrau.

2. Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion:
Cae Chwarae: Roedd adroddiad yr arolygydd wedi dod i law.
Cytunwyd i gyfarfod ar y cae chwarae am 6.30pm ddydd Iau 23 Gorffennaf 2020 i weld a thrafod yr eitemau a nodwyd bod angen sylw arnynt, h.y. gwahanu'r teils, y rociwr a'r meinciau.

**5. Penderfyniadau Cynllunio:**

**LUE2020/8 27 Zealand Park, Caergeiliog.**
Cais am dystysgrif defnydd arfaethedig o'r datblygiad oherwydd bod gwaith sylweddol wedi cychwyn ar ganiatâd 32C192A er mwyn diogelu'r caniatâd hwnnw ar dir gyferbyn - Roedd yr Adran Gynllunio Lleol yn fodlon yn ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd fod y defnydd a nodir yn yr Atodlen Gyntaf yn gyfreithlon.

**6. Ceisiadau Cynllunio**

**HHP/2020/17 3 Zealand Park, Caergeiliog**
Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu gyda chodi modurdy ar wahân – dim gwrthwynebiad.

**7. Materion Ariannol / Financial Matters**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol am y cyfnod 1.6.2020 hyd at

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….

30.6.2020 ynghyd â Chysyniadau a Datganiadau Banc.

Cyfrif Cyfredol £13,749.89, Cyfrif Cadw £3,938.47

**8. Taliadau i'w gwneud / Payments to be made**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Mehefin | £237.09 | | £45.36 |

Cytunwyd i dalu y rhain

**9. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

1. Blaen Raglen waith y Pwyllgor Gwaith
2. Newyddlen Ein Tîm
3. Cynllunio ar gyfer ailagor mannau chwarae a champfeydd awyr agored
4. Agor Canolfannau Cymunedol - canllawiau i'w nodi.
5. Arolwg ar Weithio o Bell – y clerc i ymateb.
6. E-fwletin Covid-19 Medrwn Môn Rhifyn 7
7. Newyddlen 'Sgyrsiau Covid' Ymgysylltu BIPBC
8. Cais am wybodaeth - Archwiliad BLM o gerfluniau - dim i'w adrodd
9. Cynigion Drafft Adolygiad Etholiadol Ynys Môn -
   Roedd y sylwadau cychwynnol i'r Comisiwn yn cynnwys cynnig i gynyddu nifer y Cynghorwyr Sir i roi cyfanswm o 35. Roedd hefyd yn cynnwys cynnig y dylai Cyngor Cymuned Bodedern ymuno â Chynghorau Cymuned Llanfair yn Neubwll a Y Fali i ffurfio ward newydd o'r enw Ardal y Llynnoedd. Byddai'r ardal newydd yn cael ei chynrychioli gan 2 Gynghorydd Sir.
   Roedd angen cyflwyno sylwadau i'r Comisiwn erbyn 14 Medi 2020.

   Nodwyd fod Cyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll yn gefnogol i hyn.

**10. Adroddiadau Cynghorwyr**

1. Nodwyd bod wyneb y llecyn tynnu i mewn wrth yr hen swyddfa bost ar Ffordd Minffordd wedi dirywio. Roedd y clerc i roi gwybod i'r Cyngor Sir.

**11. Cyfarfod Nesaf – 15 Medi 2020.**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd…………………………